## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Mercher 14eg Ebrill 2010 am 09.30am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J R Bartley, J B Bellis, B Blakeley, W L Cowie, J A Davies, J M Davies, M Ll Davies, (sylwedydd) M J Eckersley, G C Evans, I A Gunning, D Hannam, C Hughes, T R Hughes, E R Jones, H Ll Jones, G M Kensler, L M Morris, P W Owen, D Owens, A G Pennington, B A Smith, D I Smith, S Thomas, J Thompson-Hill, C H Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawrion), Arweinydd Tîm (Cefnogi) (G Butler) Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) M Parker (Uwch Beiriannydd, Priffyrdd) a Catrin Gilkes (Cyfieithydd).

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr P Dobb, N Hughes, I Armstrong, J Chamberlain-Jones, P Duffy, D A J Thomas.

### 867 MATERION BRYS

Dim

### 868 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhestru cynlluniau a gyflwynwyd ac angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a)* *Bod argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynir nawr, yn cael eu cadarnhau a bod caniatâd cynllunio neu wrthodiad fel y bo'r achos, yn cael eu cyflwyno fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn yr atodlen a gyflwynir nawr:*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 40/2009/1450/PF | Datganodd y Cynghorydd J Bellis fuddiant yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.<br>Cymerodd y Cynghorydd R Bartley y gadair ar gyfer yr eitem hon<br>Ymestyn cwrtil preswyl ac adeiladu modurdy a storfa goed ar wahân.<br>**The Anchorage Nant y Faenol Road Bodelwyddan Y Rhyl**<br>**CANIATAU** |
| 43/2009/1600/PF | Datganodd y Cynghorydd I Gunning fuddiant yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.<br>Cymerodd y Cynghorydd R Bartley y gadair ar gyfer yr eitem hon<br>Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth: Mr a Mrs D Rickards, 3 The Paddock Prestatyn, Mr a Mrs Lee, 1 Paddock Prestatyn |

Dymchwel ty clwb a bynglo presennol, adeiladu ty clwb newydd a dau dy annedd a newid mynedfa bresennol i gerbydau
**Clwb Golff Gallt Melyd, The Paddock Prestatyn**
**CANIATAU**
Amodau Ychwanegol
11. Dylid dymchwel annedd y warden cyn cychwyn ar unrhyw ddatblygiad, ac ni ddylid defnyddio'r ty clwb newydd nes bydd y ty clwb presennol wedi ei ddymchwel neu fel a gytunir fel arall ar bapur gan yr awdurdod cynllunio lleol. *Rheswm:* I sicrhau bod y datblygiad yn digwydd mewn modd trefnus ac nad oes unrhyw un o'r adeiladau presennol yn aros, er budd mwynderau gweledol a threfn gynllunio briodol yr ardal.
12. Ni chaniateir dechrau datblygu ar y maes parcio nes ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas ag adeiladu ac arwyneb y maes parcio a sut caiff ei ddraenio. Dylid ymgymryd â'r datblygiad gan gydymffurfio'n llwyr â'r manylion a gymeradwywyd. *Rheswm:* I sicrhau arwyneb addas ac i sicrhau system ddraenio briodol.
**Nodyn i'r ymgeisydd**
Fe'ch cynghorir i gysylltu â'r Swyddog Achos cyn cyflwyno materion sy'n dod dan yr amod, i drafod agweddau tuag at ddefnyddio deunyddiau, tirweddu a manylion y maes parcio.

45/2010/0081/PF

**SIARADWR O BLAID T THOMAS**
Ar ôl ystyried cywiro camgymeriad teipio – y cynnydd arfaethedig yw o 10 i 16 o blant, nid 160.
Newid defnydd rhan o fflat ail lawr i ffurfio estyniad i feithrinfa ddydd i ganiatáu cynnydd yn y lleoliadau meithrin i 46 a chynnydd yn y nifer o blant yn y man chwarae allanol i 16
**37 Marine Drive Rhyl**
**CANIATAU**

**GWRTHOD**

01/2010/0046/PF

Datganodd y Cynghorydd G C Evans (perthyn i'r perchennog) fuddiant yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth
Newid defnydd o siop pysgod a sglodion i gyfleustra golchi ceir â llaw (cais ôl-weithredol)
**Cyn Abbey Garage Ffordd y Rhyl Dinbych**
**GWRTHOD**

ENF/2010/00010

Datganodd y Cynghorydd G C Evans fuddiant yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth
**Adroddiad Gorfodi**
**Cyn Abbey Garage Ffordd y Rhyl Dinbych**
Awdurdodi'r canlynol:
(i) Cyflwyno hysbysiad gorfodi i sicrhau rhoi'r gorau i ddefnyddio tir heb awdurdod ar gyfer gweithrediad golchi ceir â llaw gyda chyfnod cydymffurfio 7 diwrnod
(ii) Cychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu'r personau i'r rhain y cyflwynir unrhyw hysbysiad gorfodi os methant â chydymffurfio gyda gofynion yr hysbysiad

03/2010/0082/PF

Cymerodd y Cynghorydd R Bartley y Gadair ar gyfer yr eitem hon
Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol gan Archaeolegydd y Sir, CADW
Defnyddio lle gwag yn yr islawr sydd wedi ei gwblhau ym Mhlas Derwen ar gyfer un fflat
**Plas Derwen Abbey Road Llangollen**

**GWRTHOD**
Cymerwyd y penderfyniad a oedd YN GROES i argymhelliad y Swyddog am y rhesymau canlynol:
Rheswm dros wrthod:
1. Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, byddai cyflwyno fflat ychwanegol yn mynd â 4 lle parcio a gymeradwywyd yn ardal isalawr datblygiad Plas Derwen yn cynrychioli newid annerbyniol i'r cynllun, gan y byddai dwysau'r datblygiad gan arwain at 21 fflat gyda chyfanswm o 32 lle parcio yn lleihau argaeledd lle parcio oddi ar y stryd i wasanaethu'r datblygiad i lefel annerbyniol, gyda'r posibilrwydd y byddai cerbydau ymwelwyr yn cael eu parcio ar yr A542 prysur, gan arwain at dagfeydd a pheryglon i holl ddefnyddwyr y briffordd. Ystyrir bod y datblygiad yn groes i Bolisïau GEN 6 (vii) a TRA 9 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych a'r arweiniad yn Nodyn Cynllunio Atodol 21 y Cyngor – Gofynion Parcio ar Ddatblygiadau Newydd

45/2009/1630/PF

Newid defnydd hen swyddfa bost yn lle pryd ar glyd bwyd poeth gyda drws a ffenestr newydd
**Cyn Swyddfa Bost 105 Grange Road Y Rhyl**
**GWRTHOD**
Rheswm dros Wrthod. Dylid newid Rhif 4 i ddarllen:
4. Yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd, nid yw'r cynnig yn cymryd agwedd mynediad cynhwysol, yn groes i amcanion arweiniad cenedlaethol, yn benodol TAN 18 Cludiant, MIPPS 01/2008 Cynllunio ar gyfer Dyluniad Da, Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych GEN 6 maen prawf vii) sy'n amlinellu'r angen i roddi mynediad diogel a chyfleus i bersonau gydag amrywiol anableddau gydag unrhyw gynnig

**GOHIRIO'R CANLYNOL AM Y RHESYMAU A NODWYD**

43/2008/0039/PF

Adnewyddu Cais Rhif 43/1999/0634/PF sef adeiladu cae chwarae pob tywydd ynghyd â llifoleuadau, ffensys, lle parcio ceir a chynllun draenio
**Ysgol Uwchradd Prestatyn, 2 Princes Avenue Prestatyn**
**GOHIRIO – i ganiatáu archwilio manylion draenio ymhellach**

**EITEM ORFODI**

ENF/2010/00011

**1 Ffordd Llanelwy, Dyserth**
Datblygiad heb awdurdod – ffens a mur terfyn tanc olew
Lloc sy'n fwy na medr o uchder yn cyffinio priffordd
***PENDERFYNWYD:***
*(a) cyflwyno Hysbysiad Gorfodi i sicrhau tynnu ymaith ffens a mur terfyn blociau (Cyfnod Cydymffurfio 3 mis) a*
*(b) Cychwyn camau erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person neu'r personau i'r rhain y cyflwynir unrhyw hysbysiad gorfodi os methant â chydymffurfio gyda gofynion yr hysbysiad*

.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55am

********